

---

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

---

<b>Enw / Name:</b>	Meilyr Rowlands
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	02920 446 446
<hr/>	
<b>Dyddiad / Date:</b>	07/06/2020
<b>Pwnc / Subject:</b>	Ymgynghoriad ar safonau a graddfeydd ar gyfer arolygu gwasanaethau troseddwr ifanc

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Rydym yn cytuno â'r cynigion i gyflwyno safon adsefydlu newydd a chyflwyno safon newydd yn ymwneud â pholisi a darpariaethau datrysiadau y tu allan i'r llys i ddisodli'r safon bresennol, sef 'gweithio ar y cyd'.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

3.11. Rydym yn bwriadu cyflwyno safon adsefydlu newydd (fel yr amlinellir yn safon 2.5 yn [Atodiad A, tudalen 24](#)) a fydd yn ein galluogi i ddsbarthu Timau Troseddau leuenctid yn ôl eu trefniadau ar gyfer darpariaeth adsefydlu effeithiol, trwy ystyried eu polisïau a'u prosesau adsefydlu, sut mae'r rhain yn cael eu cyflwyno, eu heffaith a pha mor effeithiol y maent yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso. Mae elfennau sefydliadol o waith adsefydlu eisoes wedi'u cynnwys yng nghwmpas ein safonau parth un presennol a byddwn yn cryfhau ein harweiniad ar hyn, ond bydd cyflwyno safon adsefydlu ar wahân yn ein galluogi i dynnu'r elfennau adsefydlu penodol o gyflwyno sefydliadol, gwneud dadansoddiad manwl o'r ffordd gyffredinol y mae pob Tîm Troseddau leuenctid yn mynd ati i adsefydlu, ac ystyried yn gynhwysfawr y cyd-destun lleol penodol y cyflwynir gwasanaethau adsefydlu ynddynt.

### **Cwestiwn – A ydych chi'n cefnogi cyflwyno safon newydd benodol ar bolisi a darpariaeth adsefydlu i redeg ochr yn ochr â data asesu achosion unigol?**

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig hwn, sy'n ychwanegu at ffocws arolygu ar adsefydlu i bobl ifanc, sy'n faes pwysig. Yn benodol, mae 2.5.2 (A yw darpariaeth adsefydlu'n hyrwyddo gwasanaeth adsefydlu personol, adeiladol, o ansawdd uchel i bob plentyn?) yn dal Tîm Troseddau leuenctid yn atebol yn gliriach am sicrhau bod ei bolisïau yn cael effaith. Hefyd, mae'n galluogi ffocws ar ba mor dda y mae byrddau rheoli a staff Timau Troseddau leuenctid wedi'u paratoi i sicrhau bod polisïau'n cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd hyn yn gwella eglurder y farn y gallai Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi ei rhoi yn y maes hwn a, lle bo'r angen, bydd yn galluogi tîm arolygu i ddarparu cyngor ac argymhellion clir sydd wedi'u haddasu'n fanwl i ganfyddiadau arolygu.

3.13. Er y bydd rhai Timau Troseddau leuenctid yn delio â nifer sylweddol o achosion yn y ddalfa bob blwyddyn, ychydig bach o achosion fydd gan lawer ac ni fydd gan rai unrhyw achosion o gwbl. Credwn y dylem arolygu a dosbarthu Tîm Troseddau leuenctid yn erbyn y safon hon dim ond pan fydd gan y tîm ddigon o achosion fel y gellir triogli polisi lleol yn effeithiol ag arfer go iawn.

### **Cwestiwn – A ydych chi'n cytuno y dylai tystiolaeth effeithiol, seiliedig ar achosion, fod wrth wraidd safon adsefydlu?**

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r cynnig hwn. Heb yr amod hwn, mae perygl y gallai timau arolygu deimlo'u bod yn gorfod rhoi barn, pan nad oes digon o dystiolaeth i ategu'u penderfyniad. Dylai arolygu pum achos gynnig tystiolaeth ddibynadwy i seilio barn arni.

3.16. Ar hyn o bryd, mae manyleb ein sampl achosion yn gofyn am achosion yr aethpwyd i'r afael â nhw yn ystod y tri mis cyn yr arolygiad ac, yn y thematig adsefydlu, edrychom ar achosion ar sail pa mor agos oeddent at ryddhau. Rydym yn cynnig ymestyn y cyfnod ar gyfer achosion yn y ddalfa sy'n dod o fewn ein cwmpas i flwyddyn cyn yr arolygiad, er mwyn pwysleisio'r angen am ystyried anghenion adsefydlu o ddiwrnod cyntaf cyfnod yn y ddalfa.

**Cwestiwn – A yw'r trefniadau wedi'u hamlinellu ar gyfer pa Dimau Troseddau leuenctid sy'n dod o fewn cwmpas y safon adsefydlu newydd, a beth ddylai manyleb y sampl achosion fod, yn briodol?**

Rydym yn cytuno â'r dull a fwriedir i ymestyn y cyfnod ar gyfer cipio tystiolaeth. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfle i dîm arolygu ystyried priodoldeb cymorth Tîm Troseddau leuenctid i sicrhau deilliannau cynaliadwy i bobl ifanc.

3.17. Wrth ddatblygu'r safon arfaethedig, ein nod fu cyflawni cydbwysedd rhwng ffactorau strwythurol a chymorth personol yn unol â'r ymchwil a sylfaen dystiolaeth yr arolygiad, gan gydnabod bod gan y ddau ran i'w chwarae mewn adsefydlu effeithiol ac nid ydynt yn gwbl ddigyswllt.

**Cwestiwn – A yw'r cwestiynau allweddol a'r cynigion a awgrymir ar gyfer y safon adsefydlu newydd, fel y'u hamlinellir yn [Atodiad A ar dudalen 24](#), yn cwmpasu'r holl ffactorau perthnasol sy'n annog darpariaeth o ansawdd da yn y maes hwn? A ydym ni wedi cyd-osod y safon hon â'r sylfaen dystiolaeth yn ddigonol? Os nad ydym, byddem yn croesawu unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau perthnasol.**

Rydym yn cytuno bod y safonau'n cwmpasu amrywiaeth o ffactorau, a'u bod yn annog ffocws ar effeithiolrwydd y perthnasoedd rhwng polisi, rheolaeth a staff gweithredol i sicrhau gwasanaeth da i bobl ifanc.

3.20. Rydym wedi ystyried yr adborth yn ofalus ac nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'n safonau gwaith achos datrysiadau y tu allan i'r llys yn ymwneud ag asesu (3.1), cynllunio (3.2) na gweithredu a chyflwyno (3.3). Fodd bynnag, rydym yn bwriadu newid ein safon bresennol 3.4 ar 'weithio ar y cyd' am safon newydd ar bolisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys (fel yr amlinellir yn safon 3.4 yn [Atodiad A, tudalen 28](#)). Bydd hyn yn ein galluogi i ddisbarthu Timau Troseddau leuenctid unigol yn benodol yn ôl eu trefniadau ar gyfer darpariaeth effeithiol datrysiadau y tu allan i'r llys a'r polisiau a phrosesau sydd wrth wraidd y trefniadau hynny, yn ogystal ag ar sail ansawdd eu gwaith eu hunain yn goruchwyllo achosion unigol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, gan alluogi dadansoddiad manylach o'r cysylltiad rhwng polisi ac ymarfer na'r hyn a fu'n bosibl o dan y fframwaith presennol.

**Cwestiwn – A ydych chi'n cefnogi cyflwyno safon newydd benodol ar bolisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys, i gyd-fynd â data asesu achosion unigol?**

Rydym yn cefnogi cyflwyno safon sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys, a fydd yn gwella'r ffocws ar yr agwedd hon ar y gwaith ac yn sicrhau bod cryfderau neu ddiffygion yn y maes hwn yn sefyll allan.

**Cwestiwn – A yw'r cwestiynau allweddol a'r cynigion a awgrymir ar gyfer y safon newydd ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys, fel y'i hamlinellir yn [Atodiad A, tudalen 28](#),**

**yn cwmpasu'r holl ffactorau perthnasol sy'n ysgogi darpariaeth o ansawdd da yn y maes hwn? A ydym ni wedi cyd-redeg y safon hon ddigon â'r sylfaen dystiolaeth? Os nad ydym, byddem yn croesawu unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau perthnasol.**

Rydym yn teimlo bod y cwestiynau allweddol/cynigion yn cwmpasu'r prif ffactorau perthnasol yn fras. Fodd bynnag, gallai partneriaeth â darparwyr addysg gael ei gwneud yn gliriach yn y cynigion, yn enwedig gan ein bod wedi gweld enghreifftiau o weithwyr Timau Troseddau leuenctid nad ydynt yn gwybod p'un a yw eu cleientiaid yn mynychu addysgu, a allai gynyddu risg a chyfleoedd y cleient i aildroseddu. Mae'r ffactor hwn ymhlyg yn 3.3.2b (A yw ymwneud asianataethau eraill â chadw'r plentyn yn ddiogel yn cael eu defnyddio a'u cydlynu'n ddigon da), ond gan fod y bartneriaeth â darparwyr addysg yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu, mae cyfleoedd i bwysleisio blaenoriaeth y berthynas hon.

**Cwestiwn – A yw'r safon newydd arfaethedig yn caniatáu yn well am ystyried y cyd-destun lleol y mae'r cynllun datrysiadau y tu allan i'r llys yn gweithredu ynddo?**

Mae'r safon arfaethedig yn caniatáu cyfle da i adlewyrchu cyd-destunau lleol.

3.31. Er enghraifft, un ffordd o symud tuag at fodel arolygu sy'n canolbwyntio'n fwy ar ymatal, ar gyfer gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys, fyddai defnyddio'r bandio a gyflawnwyd i'r cwestiwn allweddol ar ymatal yn fan cychwyn ar gyfer ein trafodaeth ar ddsbarthiad ar gyfer pob safon datrysiadau y tu allan i'r llys. Yna, byddai'r sgorau ar gyfer cwestiynau allweddol ar ddiogelwch a llesiant a risg niwed yn cael eu defnyddio i lywio'r drafodaeth yn ein panel dosbarthu, lle y byddai lefel dosbarthiad terfynol y safon yn cael ei chadarnhau. Yn yr un modd â'n dull presennol, gallai lefel safonol y dosbarthiad gael ei symud i fyny neu i lawr ar sail tystiolaeth ehangach berthnasol. Byddai Timau Troseddau leuenctid yn annhebygol o gyflawni'r dosbarthiad uchaf ar lefel safonol oni fernir bod perfformiad yn ddigonol ar draws amrediad cyfan y cwestiynau allweddol. Yn yr un modd, fodd bynnag, ni fyddai sgôr isel ar gyfer iechyd a llesiant neu risg niwed yn llywio dosbarthiad cyffredinol isel ar gyfer y safon yn awtomatig.

**Cwestiwn – A ddylem ni ystyried defnyddio'r sgorau sy'n ymwneud ag ymatal yn fan cychwyn i'n dosbarthiadau arolygu lefel safonol ar gyfer gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys? A fyddai ymagwedd o'r fath yn berthnasol ac yn gymwys yn y maes polisi ac ymarfer presennol?**

Rydym yn cytuno y byddai'r man cychwyn hwn yn cynyddu'r flaenoriaeth y gall Timau Troseddau leuenctid ei rhoi i ymatal yn eu cynllunio.

**Cwestiwn – A oes risg y gallai mabwysiadu ymagwedd o'r fath olygu bod blaenoriaeth annigonol yn cael ei rhoi i waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch a llesiant y plentyn neu reoli'r risg niwed y gallai'r plentyn ei pheri i eraill? Os felly, sut gallem sicrhau bod y materion hyn yn parhau'n ddigon amlwg yn ein fframwaith arolygu petaem ni'n gwneud newid fel hyn?**

Rydym yn derbyn bod perygl y gallai amgyffrediad Tîm Troseddau leuenctid fod Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi mwy o flaenoriaeth i ymatal effeithio'n niweidiol ar ei arferion darparu neu ei flaenoriaethau cynllunio, gan gynnwys diogelwch a llesiant. Felly, byddai angen ei gwneud hi'n glir i wasanaethau fod y materion sylfaenol hyn yn parhau i gael eu dadansoddi a'u gwerthuso, gyda'r posibilrwydd y byddant yn effeithio ar y graddau a ddyfernir. Yn amlwg, pe byddai gan wasanaeth ymagwedd gadarn at ymatal, ond lle nad oedd cleientiaid yn ddiogel, byddai graddau cyffredinol y farn yn adlewyrchu hyn.

3.33. Yn y sampl gyfunol o achosion parth dau a pharth tri rydym yn ei dwyn ynghyd ar gyfer pob Tîm Troseddau leuenctid, mae 60 y cant ohonynt yn achosion datrysiadau yn y llys ac mae 40 y cant ohonynt yn achosion y tu allan i'r llys. Gan nad oes data wedi'i gyhoeddi ar nifer y datrysiadau y tu allan i'r llys y mae Timau Troseddau leuenctid unigol yn ymdrin â nhw, rydym wedi seilio'r gymhareb hon ar gymhareb nodweddiadol yr achosion a oedd yn ddatrysiadau yn y llys a'r tu allan i'r llys, yn ôl yr hyn y dywedodd arolygiadau cyn cyflwyno'n dull presennol yn 2018 wrthym. Rydym yn cydnabod bod cyfran yr achosion y tu allan i'r llys y mae Timau Troseddau leuenctid wedi bod yn ymdrin â nhw wedi parhau i gynyddu ers hynny ac, yn aml erbyn hyn, mae'n cynrychioli cyfran fwy o lawer o'r baich achosion cyfan. Felly, rydym yn ystyried sut y gallwn adlewyrchu beichiau gwaith gwirioneddol ar gyfer gwaith y tu allan i'r llys yn well yn ein samplau achosion ac rydym yn awyddus i glywed eich barn. Byddwn yn ystyried pob cynnig yn ofalus, ond bydd angen gwneud y penderfyniad ar ba ymagwedd a ddewiswn yn unol â'r hyn sy'n ymarferol mewn arolygiadau unigol a'r adnoddau sydd ar gael gennym.

**Cwestiwn – Sut gallwn ni sicrhau bod cymhareb y datrysiadau yn y llys o gymharu â'r datrysiadau y tu allan i'r llys yn ein sampl achosion yn adlewyrchu beichiau achosion gwirioneddol yn well?**

O safbwynt arolygiaeth bartner, mae llawer o gyfraniad Estyn yn dibynnu ar yr hyn y mae Arolygiaeth Prawf EM yn gorchymyn i'n harolygwyr ganolbwyntio arno yn dilyn ymweliad wythnos un gan staff Arolygiaeth Prawf EM. Felly, pe bai'n bosibl i arolygwyr Arolygiaeth Prawf EM aros cyn penderfynu ar eu samplu tan weithgareddau wythnos 1 a theilwra eu samplu yn ôl dosbarthiad y gwaith datrysiadau yn y llys/datrysiadau y tu allan i'r llys y mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid unigol yn ymgymryd ag ef, byddai hyn yn rhoi'r cyfle i sicrhau bod y samplu'n adlewyrchu cyd-destun lleol.